

Papur Pawb

Pris: 50c

Mehefin 2015

Rhif 410



Clive Morgan a Dylan Hughes, capteiniaid Tal-y-bont yn codi Tarian Pencampwriaeth Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth ar Cylch. Adroddiad ar dudalen 16

tud 3, 5

Pobl a Phethe

tud 4, 5, 12, 13

Ysgolion

tud 15

Y Gair Olaf

tud 16

Chwaraeon



Pencampwyr y Rali

Profodd Rali Ceredigion 2015 ar y 6 Mehefin i fod yn ddiwrnod cofiadwy i C.F.F.I Tal-y-bont. Yn dilyn diwrnod brwd o gystadlu gan aelodau'r Sir ar fferm Prysg, Llanddewi Brefi llwyddodd y Clwb i wneud y gamp eithaf, sef codi tlws enillwyr Rali Llanddewi Brefi. Roedd Elgan Evans, Tynant wedi llywio'r gweithgareddau yn hyderus o'r llwyfan fel Cadeirydd presennol y Sir trwy gydol y dydd ac roedd yn braf iawn gweld cyn aelod yn cael y fraint o gyhoeddi Clwb Tal-y-bont fel yr enillwyr.

Bu'r cystadlu yn dilyn thema y 'Môr-Ladron ar Moroedd Mawr' ac un o'r cystadlaethau eleni oedd mynd ati i ddylunio a chreu Baner Môr Leidr ar aelodau fu wrthi'n creu oedd

Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys a Teleri Morgan, Pwllglas gan gipio'r ail wobr.

Mae Cystadlaethau'r Aelodau yn cynnwys cyfuno marciau tîm o ddau yn coginio, aelod yn gosod blodau ac aelod arall yn creu eitem o grefft. Llwyddodd aelodau Tal-y-bont sef Gareth Jenkins, Sara Jenkins, Ffion Evans a Cadfan Davies i gipio'r trydydd safle ar draws y dair gystadlaeth. Cafodd Gareth Jenkins, Ynys Eidiol y bedwaredd wobwr am greu tegan plentyn a Sara Jenkins, Tynygraig yn dod yn bumed am osod blodau.

Daeth Tal-y-bont yn fuddugol yng nghystadlaethau y Tablo ar y thema 'Môr-Ladron ar Moroedd Mawr' yn adrodd stori gyffrous

Peter Pan. Y criw yn y tablo oedd Alaw Aur Jones, Gareth Jenkins, Rhys Richards, Seren Pugh, Sion Evans, Dafydd Thomas, Sara Jenkins, Rhodri Evans, Aled Llyr a Iestyn Thomas.

Cyflwynwyd cystadlaeth newydd sbon yn y Rali eleni sef Tîrn Gwlân gyda Steffan Nutting yn cipio'r wobwr gyntaf a thlws a gyflwynwyd i'r Sir gan deulu Tynant, Tal-y-bont.

Bu'r aelodau'n cystadlu'n frwd ac yn llwyddiannus yn y cystadlaethau barnu stoc. Wrth farnu Gwartheg Charolais cipiwyd y wobwr gyntaf gan dîm Tal-y-bont sef Dewi Jenkins, Tynygraig, Richard John Jenkins, Ynysgreigiog a Bedwyr Siencyn, Tanrallt. Daeth Dewi i'r brîg o

dan 26 oed gyda marciau llawn o 200 allan o 200, Richard John yn ail o dan 21 oed a Bedwyr yn drydydd o dan 16 oed.

Derbyniodd Dewi y cwpan am yr unigolyn gyda'r marciau uchaf yn yr holl gystadlaeth.

Yn y gystadlaeth barnu defaid Beltex daeth tîm Tal-y-bont sef Dewi Jenkins, Gwenno Evans, Tanllan a Bedwyr Siencyn yn ail. Daeth Dewi Jenkins yn gyntaf o dan 26 a Gwenno Evans yn ail o dan 21 oed. Cipiodd Dewi y cwpan am yr unigolyn gorau yn y gystadlaeth yma yn ogystal.

Cafodd Dewi Jenkins, Tynygraig ddiwrnod bythgofiadwy yn y barnu gan gipio saith cwpan

parhad tud 6

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis	
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832592 832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henlllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	832429 (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgriadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

Coetmor Tal-y-bont

Diolch yn fawr am gefnogaeth a haelioni y rhai fu'n ymweld â'r ardd yng Nghoetmor p'nawn Iau a Gwener, 28 a 29 Mai. Bu'r tywydd yn ffafriol iawn ac roedd yn bleser cael oedi a sgwrsio.

Diolch yn arbennig i Phil Davies am wneud y posteri ac i Ieuan Morgan am eu dosbarthu a derbyn yr holl gyfraniadau. Diolch hefyd i Howard Ovens am eu tywys trwy'r ardd a rhannu ei wybodaeth eang am goed.

Gyda llawer o ddiolch
Gwen Hughes



Gwen, Gwenno a Valma

Y Dyddiadur

Wedi nifer o flynyddoedd o wasanaeth mae Glenys Edwards wedi penderfynu rhoi'r gorau i drefnu Dyddiadur Papur Pawb. Hoffem ddiolch i Glenys am ei holl waith. Byddwn yn dewis olynydd yng nghyfarfod blynyddol Papur Pawb a gynhelir ar 24 Mehefin. Yn y cyfamsar a wneuch chi anfon gwybodaeth ar gyfer y dyddiadur at y Golygydd Cyffredinol. golygydd@papurpawb.com

Simne Wen Tal-y-bont

Annwyl Gyfeillion,

Dyma ysgrifennu at Papur Pawb i ddiolch i bawb a fu mor garedig atom fel teulu yn ystod y misoedd a aeth heibio. Yr ydym wedi colli Mamgu a Nain yn y chwe mis diwethaf ac y bu yn gyfnod digon anodd ond y mae hefyd wedi bod yn gyfle i werthfawrogi bod yn rhan o gymuned wledig glos. Mae ffrindiau a chymdogion wedi bod yn gefn i ni yn Rhydymain, Trefenter ac yma yn Nhal-y-bont a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb yn ardal Papur Pawb am eich geiriau a'ch gweithredoedd caredig. Rydym yn gwerthfawrogi pob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth ac y mae'n bwysig nodi bod agweddau gorau cymdogaeth yn fyw ac yn iach yma.

Alun, Catrin ac Elan

Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas am 7.30 ar nos Iau 1 Gorffennaf yn y Neuadd Goffa Croeso cynnes i bawb

Cymdeithas Papur Pawb

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas am 7.30 ar nos Fercher 24 Mehefin yn y Neuadd Goffa Croeso cynnes i bawb

Dyddiadur

Mehefin

- 14 **Bethel** 5.00 Gweinidog
Nasareth 5.00 Rhydian Griffiths
Rehoboth 10.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11.00 Boreol Weddi
- 15 **Merched y Wawr** Taith (Megan Mai)
- 18 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont** 'Dilyn olion llwybrau'r Eglwys' (Eglwys yr Hafod)
- 19 **Ffrindiau Cartref Tregerddan** Barbeciw, 6.30
- 21 **Bethel** 10.00 Oedfa Undebol yr ofalaeth yn Noddfa
Rehoboth 5.00 Rhydian Griffiths
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- 24 **Cymdeithas Papur Pawb** Cyfarfod Blynyddol am 7.30 yn y Neuadd Goffa
- 26 **Eglwys St. Pedr, Elerch** Gwin, Caws a Chân 7.00
Clwb Nos Wener Bois y Gilfach, Y Blac 8.00
- 28 **Bethel** 10.00 Gweinidog (C)
Rehoboth 5.00 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cwrdd Teuluol
Capel Bethesda, Ty Nant 2.00 Parch Richard Lewis

Gorffennaf

- 1 **Eglwys Dewi Sant** 7.00 'Dyfodol yr Eglwys Uchod' Croeso i bawb
Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch Cyfarfod Blynyddol am 7.30 yn y Neuadd Goffa
- 5 **Bethel** 10.00 Parch Raymond Jones
Nasareth 2.00 Bugail (C)
Rehoboth 5.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
Capel Bethesda, Ty Nant 2.00 Ysgol Sul, Bethel

- 7 **Sefydliad y Merched, Taliesin** 'Sut i baratoi eitemau i arddangos mewn sioe. (Mair Jones, Llanilar)
- 12 **Bethel** 10.00 Trefn Lleol
Rehoboth 12.00 Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11.00 Boreol Weddi
- 18 **Sefydliad y Merched, Taliesin** Trip i Blas Newydd, Sir Fôn a chanolfan newydd Halen Môn. Enwau i Liz Roberts
- 19 **Bethel** 10.00 Gweinidog (C)
Rehoboth 10.00 Gwyn Davies
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- 26 **Bethel** 2.00 Mr Raymond Davies
Rehoboth 5.00 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11.00 Oedfa Deuluol

Awst

- 2 **Bethel** 10.00 Uno yn Rehoboth
Rehoboth 10.00 Beti Griffiths
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- 9 **Bethel** 10.00 Gweinidog
Rehoboth Uno Ym Methel
Eglwys Dewi Sant 11.00 Boreol Weddi
- 16 **Bethel** Uno yn Rehoboth
Rehoboth 10.00 Gordon Mcdonald
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- 23 **Bethel** 2.00 Gweinidog
Rehoboth Uno Ym Methel
Eglwys Dewi Sant 11.00 Oedfa Deuluol
- 29 **Sioe Tal-y-bont**
- 30 **Bethel** 2.00 Gweinidog (C)
Rehoboth Trefniant Lleol
Eglwys Dewi Sant 10.00 Oedfa Cyd

Medi

- 6 **Bethel** 5.00 Gweinidog
Nasareth 2.00 Bugail (C)
Rehoboth 5.00 Parch Elwyn Pryse
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- 13 **Bethel** 2.00 Gweinidog
Nasareth 5.00 Parch Terry Edwards
Rehoboth 10.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Beryl a Mair, gyda Ceri yn dylunio. Golygyddion mis Medi fydd Bledwyn a Delyth huws.henllan@btinternet.com gydag Iolo yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 4 Medi, a bydd y papur ar werth ar 11 Medi.



Canolfan fydd a diwylliant
Centre for faith and culture

AR DRAMP YN DRE
6.00, nos Fercher, 17 Mehefin
Taith gerdded dan arweiniad William Troughton a Gareth Lewis yn ymweld â deg lle o ddi-ddordeb yn Aberystwyth. Cychwyn o Morlan am 6.00. Rhan o'r gyfres Deg Dros Ddeg i nodi dengmlwyddiant Morlan.
Bydd y digwyddiad Deg dros Ddeg nesaf ym mis Medi.

morlan
10/10
deg dros ddeg

Manylion llawn: www.morlan.org.uk

Morlan, Maelfa Mawr, Aberystwyth SY23 2JH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Cydymdeimlo

Gyda Phapur Pawb ar fin mynd i'r wasg daeth y newydd trist am farwolaeth Goronwy Jones, Glascoed, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn â Tegwen â'r merched, Llinos, Gaynor ac Eirian; yr wyresau, Catrin a Nia a'u teuluoedd. Bydd teyrnged yn rhifyn mis Medi.

Croeso

Estynnwn groeso cynnes i Giles a Helen sydd wedi ymgartrefu yn Nhanllidiart, Bont-goch. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd.

Y wobwr gyntaf

Llongyfarchiadau i Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar ennill y wobwr gyntaf yn yr adran gwaith llenyddol yn Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth.

Golff

Llongyfarchiadau i Ben Jones Hughes, Maes-y-deri, Tal-y-bont ar ei lwyddiant gyda thîm golff Ysgol Penweddig a enillodd gystadleuaeth Ysgolion Gorllewin Cymru ar 29 Ebrill. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yng Nghlwb Golff Glyn Abbey ger Llanelli.

Croeso

Estynnwn groeso cynnes i Giles a Helen sydd wedi ymgartrefu yn Nhanllidiart, Bont-goch. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd.

Symud Tŷ

Pob lwc i Ann a Tony Jones, Tremafon, Tal-y-bont yn eu cartref newydd yng Nghaerfyrddin. Croeso cynnes i Angela a Martin Jelinek sydd wedi symud o Eastbourne i Dremafon. Mae Angela yn gyfnither i David Jones, Berthlwyd.

Croeso cynnes i Eifion a Tara Jones sydd wedi symud i fyw i Cilgant y Coed, Taliesin yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Eleri James, Cwmudw, Tal-y-bont ar ei dyweddïad yn ddiweddar ac Owen Jewell, Llwyn Fynwent, Llangwryfon.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Medi Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont ar basio arholiad Gradd 8 y Delyn gydag arhwyddedd. Da iawn ti.

Pobl a Phethe

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Eifion Jones a Tara Mannix, gynt o Graig y Delyn, Tal-y-bont ar eu priodas yng Nghastell Glandyfi ar Fai 2il. Treuliwyd y mis mel ar arfordir yr Amalfi yn yr Eidal. Maent bellach wedi ymgartrefu yng Nghilgant y Coed, Taliesin. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

**Ffotograffydd Wythnosol y Flwyddyn**

Llongyfarchiadau i Arwyn Parry Jones, Isallt, Tal-y-bont ffotograffydd gyda'r Cambrian News ar ennill gwobr Ffotograffydd Wythnosol y Flwyddyn. Derbyniodd ei wobwr yn Ngwesty'r Marriott yn Llundain.

Cwrs Cymorth Cyntaf

Dydd Llun 22 Mehefin cynhelir cwrs yn yr Ystafell Haearn 6.30-8.30 ar gyfer y rhai na chafodd gyfle y fynychu y cwrs blaenorol.

Camlwyddiant Cysegru Cangell Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

Dewch i ymuno yn y dathliadau gyda Gwasanaeth Corawl 3.30 pwn Sul, 28 Mehefin.

Dymuniadau Gorau

Braf yw gweld Dr Mina Morel, Llawryglyn, Bont-goch, yn gwella'n dda yn dilyn ei hanffawd ar ei cheffyl, ac mae bellach wedi dychwelyd i'w gwaith. Dymunwn yn dda iddi, a gobeithiwn ei gweld yn ôl ar ei cheffyl unwaith eto cyn diwedd yr Hydref.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Amanda ac Andrew, Tan-yr-allt, Taliesin ar enedigaeth eu hail ferch Holly, chwaer fach i Rosie ar 2 Mai. Croeso hefyd i Ela Wyn merch fach Lisa a Dafydd, Morawel, Tal-y-bont a chwaer fach i Harri Wyn.

Llongyfarchiadau gwresog i Ceri a Chris Chaudhuri ar enedigaeth eu merch fach Soffia Elin ar 4 Mehefin ac i Beti ac Eryl Foulkes, 2 Y Romans, Taliesin ar ddod yn nain a thaid unwaith eto.

Ymddiriedolath Bywyd Gwylt Trefaldwyn: Digwyddiadau mis Mehefin Gwarchodfa Cors Ddyfi

Bydd mis Mehefin yn amser gwych i ymweld â'r warchodfa gan bod tri wŷ y gweilch bellach wedi deor. Gellir gweld lluniau byw o'r nyth ar y ddolen ganlynol: www.dyfiospreyproject.com.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Enid Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont â'r teulu ar golli cyfnither ym Mhontyclun; Bob Southgate, Maes y Deri, Tal-y-bont â'r teulu ar golli cefnder yn Llanyddyfri a Delyth Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont â'r teulu a gollodd ewyrth yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Enoc Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont a ddathlodd ben blwydd arbennig ar 1 Mehefin.



Gŵyl Rhwng y Ddwy

Haul braf ac awyr las, cwmni da a cherddoriaeth fyw mewn maes parcio, be fwy sydd ei angen dwedwch? A dyna'n union gafwyd yng Ngŵyl Rhwng y Ddwy ar brynawn Sadwrn 23 o Fai, rhwng y ddau Lew, y Du a'r Gwyn.

Mi fydd llawer o ddarlennwyr Papur Pawb yn gyfarwydd iawn gyda Chlwb Nos Wener, a'r arlyw misol o gerddoriaeth fyw yn Nhal-y-bont. Ers tro bu'r pwyllgor yn meddwl am ffyrdd o ehangu'r apêl, ac roedd Gŵyl Rhwng y Ddwy yn gam at wneud hynny.

Yn llygad haul tanbaid diwedd prynhawn (gwyrthiol o ystyried tywydd y diwrnod cynt a thrannoeth!), cafwyd perfformiadau gwych gan A Llawer Mwy, dan arweiniad Nigel Hardy o Dre'r Ddôl, a fu hefyd yn arwain y dawnio gwerin, a Sgarmes, a roddodd berfformiad ysbrydoledig llawn afaith o ganeuon poblogaidd cyfoes a thraddodiadol, o dan arweiniad Elinor Powell, Llandre.

Ac er i'r haul ddiplannu tu ôl i Allt y Crib yn ystod perfformiad yr Hitites, cafwyd perfformiadau grymus llawn hiwmor o ganeuon gwreiddiol megis Shane Williams a The Lonliness of the Afternoon Drinker, caneuon gwerin ac ambell siantî fôr ddigyfeiliant hyfryd mewn pedwar llais.

Wrth i'r tymheredd y tu allan ddisgyn, ymfudodd llawer i'r Llew Gwyn lle cafwyd sesiwn werin fyrfyr gyda chyfraniadau hyfryd ac amrywiol, yn ganeuon, yn gerddoriaeth dawn a thonau traddodiadol, gan ddwsin a mwy o gerddorion ar ffidlau, pibau, fflwt a gitâr.

Braf cael adrodd bod y digwyddiad wedi denu torf amrywiol o blant ac oedolion, oedd yn llawer mwy na'r nifer arferol sy'n mynychu un o nosweithiau Clwb Nos Wener, ac yn hynny o beth, bu'n llwyddiant.

Wrth gwrs, nid oes modd trefnu digwyddiad o'r fath heb leoliad a chefnogaeth ymarferol, felly diolch i bawb fu'n cynorthwyo gyda'r trefniadau.

Eisoes, bu trafod am gynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf, tua'r un adeg o'r flwyddyn. Os oes gennych chi awgrymiadau am yr hyn yr hoffech ei weld yn Gŵyl Rhwng y Ddwy, beth am gysylltu â'r trefnwyr, Arthur Dafis (ArthurDafis@goolemail.com) neu Harry James (harryamed@btinternet.com).



"Allwn ni ddim llanw'r twll yma - ma' fe o ddiddordeb hanesyddol erbyn hyn!"

Ysgol Llangynfelyn



Ymweliad Nii Ayikwei Parkes



Llangrannog



Ymweliad i orsaf y Bâd Achub ac Amgueddfa Ceredigion



Gŵyl Seiclo Aber a Ras Beics Pearl Izumi (Ruby ail o'r chwth)

Ysgol Llangynfelyn

Ymweliad Nii Ayikwei Parkes

Daeth yr awdur o Ghana Nii Ayikwei Parkes i'r ysgol i siarad am ei waith ac am Ghana. Mae Nii yn Gymrodor Ysgrifennu'r Gymdeithas Lenyddol Frenhinol yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Ei nofel fwyaf cydnabyddus ydy 'Tail of the Blue Bird'. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn ofyn cwestiynau iddo am Ghana. Byddwn yn croesawu athrawon o Ghana a Malawi i'r ysgol am wythnos o Fehefin y 13eg fel rhan olaf ein Prosiect 'Connecting Classrooms'.

Llangrannog

Aeth naw o blant Blynyddoedd 4, 5 a 6 i Wersyll yr Urdd Llangrannog am dridiau i flasu amryw o weithgareddau. Cafwyd amser bendigedig yn y gwersyll gyda gweithgareddau newydd sbon hefyd. Uchafbwynt yr ymweliad oedd y disgo a gweld sgiliau sgiō gwyh Miss Fflur. Diolchwn yn fawr iawn i Mrs Evans a Miss Fflur am fynd gyda'r plant.

Diwrnod Twm Siôn Cati

Roedd hi'n Ddiwrnod Twm Siôn Cati ar Ddydd Sul Mai 17eg. I ddathlu'r achlysur bu phlant yr ysgol yn brysur iawn yn tynnu lluniau ac yn ysgrifennu storiâu am Twm Siôn Cati. Aeth criw ohonynt i Siop Cynfelyn ar y Dydd Sul i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn cynnwys sesiwn stori gan Twm Siôn Cati ei hun. Dyfarnwyd pwy oedd enillwyr y gystadlueaeth tynnu llun ac ysgrifennu stori.

Ymweliad i orsaf y Bâd Achub ac Amgueddfa Ceredigion

Fel rhan o'u gwaith ar y thema 'Traeth', aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen i Amgueddfa Ceredigion yn Aberystwyth. Bu'r plant yn edrych ar yr arddangosfa am y môr a'r llongau hwylio hanesyddol. Wedyn, cafwyd cyfle i chwarae ym Mharc y Castell a chael picnic hyfryd. Cerddodd bawb drwy'r castell i orsaf y Bâd Achub i dreulio awr gyffrous a diddorol iawn yng nghwmni Ian sy'n gwirfoddoli i'r RNLI. Gwylodd y plant ffilm yn dangos gwaith yr RNLI cyn cael cyfle i eistedd yn y Bâd Achub mawr a gofyn llawer o gwestiynau diddorol i Ian. Cyn mynd adref, gwisgwyd Mrs Nelmes yng ngwisg RNLI Ian a bu'r plant yn chwistrelli dŵr arni i wneud yn siŵr fod y wisg yn dal dŵr. Mi roedd!

Gŵyl Seiclo Aber a Ras Beics Pearl Izumi

Yn flynyddol, mae plant Ysgol Llangynfelyn wedi cymryd rhan yn y ras feic yn Aberystwyth gyda Gŵyl Seiclo Aber. Aeth pump o blant yno i gymryd rhan ond yn arbennig eleni, cafodd Ruby Indeka ei enwebu fel un o fascotiaid y rasys proffesiynol. Cafodd Ruby grys-t arbennig i wisgo ac arweiniodd hi dîm 'Aberdeen Asset Management' ar ddechrau'r ras. Llongyfarchiadau mawr iawn i ti Ruby ac i weddill tîm Llangynfelyn.

Bechgyn Blwyddyn 6 – Ben Phillips – Safle 15ed
Merched Blwyddyn 6 – Ruby Indeka – Safle 5ed
Merched Blwyddyn 6 – Poppy Kerridge – Safle 10fed
Bechgyn Blwyddyn 3 – Finn Langley – Safle 7fed
Merched Blwyddyn 3 – Katy Indeka – safle 8fed

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- a rhagor

Nodwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.cymru



Priodas

Dymuniadau gorau i James Gilbert, Swm y Nant, Tre'r Ddôl a Naila Varma ar eu priodas ar y 3 Ebrill yng Nghaerdydd. Treuliwyd y mis mêl yn yr Aifft. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn y Brifddinas.

Pobl a Phethe

Pysgota

Llongyfarchiadau i Ceri Jones, Pistyll y Llan, Tal-y-bont ac Evan Astley, Y Gorlan, Tal-y-bont ar ddod yn drydydd yng Nghystadlueaeth pysgota i Barau Sierra (*Sierra Pairs*) a phob hwyll iddynt yn y ffeinal yn Rutland.

Gŵyl Lenyddol R.S. THOMAS 11-13 Medi 2015

Cofiwch archebu eich tocynnau ar gyfer yr ŵyl, gweler y Rhaglen a manylion prynu tocynnau: www.eglwysfach.co.uk

Wardeiniaid Cymunedol

Gwirfoddol

Mae Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed yn chwilio am wirfoddolwyr i ddatblygu eu Cynllun Argyfwng Cymunedol ac i'w weithredu mewn achos o argyfwng. Am ragor o fanylion cysylltwch â clerk@ysguborycoedcommunitycouncil.co.uk neu gweler y wefan www.cyngor.cymunedysguborycoed.co.uk

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Evan a Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont ar enedigaeth eu gor wyres Betsan Fflur, merch fach i Rhys ac Angharad Llanddewi Brefi.

Llongyfarchiadau i Marie a Jack, Maesyllan, Tal-y-bont ar enedigaeth mab, Mattias Moses Bishoy. Brawd i Thérèse, Grace a Tomas.

Ar y Teledu

Pleser oedd gweld Robat Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont ar raglen Cadw Cwmni gyda John Hardy yn sôn am sut y bu iddo ef a Penri Jones sefydlu'r cylchgrawn LOL.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Gwen Manley, Swyn y Leri, Tal-y-bont a Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont ill dwy sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

Ymdeoliad

Ymdeoliad hapus i Cheryl Griffiths, Eryl, Tal-y-bont sydd yn ymdeol ym mis Mehefin.



Yr Esgob Wyn gyda wardeiniaid Eglwys Elerch, Emyr W. Davies a Dewi Evans.

Eglwys St. Pedr Elerch

Bu mis Mai yn fis prysur yn Eglwys St. Pedr, Bont-goch. Yn ogystal a'r gwasanaethau arferol cawsom y fraint o groesawu'r Esgob Wyn o Dyddewi i'n plith pan ddatlwyd y Cymun Bendigaid ar Ddydd Iau, 28 Mai o dan dan ei arweiniad. Roedd yn arbennig o braf i gael ei gwmi gan i'w dad, y diweddar Ganon D. Eifion Evans, fod yn offeiriad ar Eglwys Elerch rhwng 1952 a 1957. Ar Ddydd Sul olaf y mis cafwyd gwasanaeth yr Hwylol Weddi ar y cyd gydag eglwysi eraill yr ofalaeth o dan arweiniad ein ficer Y Parch Andrew Loat. Edrychwn ymlaen at ein noson o win, caws a chân a gynhelir ar nos Wener 26 Mehefin.



Beirniaid

Rowland Davies, Dolettwr a Susan Rowlands, Erglodd a fu'n beirniadu defaid yn sioe amaethyddol Bath and West - sef un o sioeau mwyaf Lloegr. Bu'r ddau wrthi yn brysur am rai oriau, yn edrych a themlo, yn y bore - Susan yn beirniadu'r defaid Zwartbles a Rowland y defaid Poll Dorset. Mwynhaeodd y ddau y profiad a diolchwyd iddynt gan Bwyllgor y sioe am eu gwaith trylwyr. Pob lwc i'r ddau yn ystod y misoedd nesaf wrth arddangos eu defaid ar hyd a lled y wlad.



Un arall oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth Trin Gwlan a'r Cneifio yn yr un sioe oedd Dilwyn Evans, Tynant, Tal-y-bont. Mae Dilwyn hefyd yn beirniadu'r yr un cystadleuthau yn Sioe Ucheldir yr Alban yng Nghaeredin.

Salon Leri
 Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
 10am-7pm
 Llun-Gwener
 (01970) 832 674

Afiaith
 Gwasanaeth Cyfieithu
 Profiadol • Proffesiynol
 Prydlon • Personol
 Martin Davis
 Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
 Powys SY20 8JG Cymru
 Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



Pencampwyr y Rali

unigol i gyd, oedd yn cynnwys cwpan am yr unigolyn gorau am farnu gwartheg yn y Rali, yr unigolyn gorau yn yr holl gystadleuthau barnu stoc o dan 26 oed a'r unigolyn gorau am adrodd rhesymau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhys Richards, Clap-y-cripiau a Gwion Evans, Tanllan fu'n cynrychioli'r clwb yn y gystadleuaeth Gneifio a daeth y ddau yn bedwerydd fel tîm. Bu Dewi Jenkins, Tynygraig yn cystadlu fel unigolyn dan 26 oed gan gipio'r ail wobr a daeth John James, Penbanc oedd yn cystadlu fel unigolyn yn drydydd o dan 21 oed.



Dewi Jenkins, Tynygraig

Bu Alaw Aur Jones, Seren Pugh, Gwenllian Davies, Teleri Morgan, Haf Evans, Aled Llyr, Iestyn Thomas a Rhodri Evans yn dawnsio dwy ddawns, un ddawns o ynys ac un ddawns gyferbyniol gan gipio'r bumed wobr. Diolch i Rachel West am hyfforddi'r criw.

Daeth blwyddyn brysur Geraint Jenkins, Cerrigaranau fel Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn i ben ac adroddodd araith bwrasol yn ystod y Seremoni Goroni wrth drosglwyddo'r awenau i Dion Davies, Clwb Pontsian.

Hoffem longyfarch yr holl aelodau fu'n cystadlu a chydnabod cymorth a chefnogaeth yr arweinyddion, cyn aelodau, rhieni a ffrindiau'r clwb fu'n helpu gyda'r hyfforddi a'r paratoi. Cafwyd Rali arbennig yn Nhal-y-bont nôl yn 2013 ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at gynnal Rali Tal-y-bont yn 2016.

Rh.E.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
 Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS
www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BLDGODDONTWR
 IN PEOPLE | MEIWN POBL

argraffu da
 am bris da

Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yolfa.com
 01970 832 304 www.yolfa.com

Trafod Dyfodol yr Eglwys

Gyda'r nifer sy'n mynychu ein heglwysi a chapeli yn rheolaidd yn lleihau, nid yw'n anarferol i weld cymaint o'n haddoldai yn cau. Nid oes bygythiad felly ar hyn o bryd i Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont, ond mae trefniadau ar y gweill i drafod ei dyfodol.

Mae'r Parchedig Peter Owen Jones, yr offeiriad sy'n gyfrifol am eglwysi, Llanfihangel, Llangorwen a Thal-y-bont, wedi galw cyfarfod cyhoeddus ar 1 Gorffennaf gan fod Cyngor Plwyfol yr Eglwys wrthi'n ystyried dyfodol tymor hir yr eglwys. Yn ôl yr offeiriad, mae Eglwys Dewi Sant, a godwyd yn 1909, wedi bod 'yn ymdrechu mewn sawl ffordd dros y blynyddoedd diwethaf.'

Mae'n debyg fod y nifer sy'n mynychu'r eglwys wedi bod yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf gydag ar gyfartaledd deg yn bresennol. Ond mae'r patrwm wedi newid gyda dim ond saith fel arfer yn mynychu'r gwasanaethau traddodiadol ond cymaint â 19 oedolyn a phum plentyn yn mynychu'r gwasanaethau teulu a gynhelir ar ddydd Sul olaf y mis.

Mae Mr Jones yn pwysleisio fod nifer o wahanol opsiynau ac er mai un o'r rhain yw bod angen i'r eglwys gau, mae'n ystyried hynny fel 'y dewis olaf un'. Dywed: 'Nid yw cau yn benderfyniad yr ydym yn ei gymryd yn ysgafn gan fod hwn nid yn unig yn effeithio ar wasanaethau ar y Sul yn wythnosol ond hefyd y gwasanaethau a gynhelir ar achlysuron arbennig (e.e. priodasau, bedyddiadau, angladdau a gwasanaethau Nadolig ac ati).'

Pwrpas y cyfarfod yn yr Eglwys ar 1 Gorffennaf am 7.00 yr hwyr fydd ymgynghori â'r gymuned leol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Yn ôl y ficer: 'Mae gan lawer o bobl y pentref gysylltiad â'r eglwys ac mae'n bwysig iawn bod y gwahanol opsiynau yn cael eu harchwilio a'u trafod.'



'Y math o bethau y byddwn yn eu harchwilio bydd: Yr hyn sydd angen ei newid fel bod mwy o bobl yn mynychu, a pha gymorth ymarferol y gall y gymuned ei roi i gefnogi'r eglwys i barhau?'

Mae croeso i bawb fynychu a phetai unrhyw un yn methu dod ar y noson, mae modd cynnig sylwadau yn uniongyrchol drwy gysylltu â'r Parchg Peter Jones, Y Ficerdy, Maes Y Garn, Bow Street, SY24 5DS. rev.peterjones@btinternet.com

Merched y Wawr

Nos Lun Mai 18 cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor – ar wahan i'n taith flynyddol. I gychwyn llongyfarchwyd Beti Jenkins ar dded yn hen-famgu ac hefyd ar ennill ail wobwr yng Ngŵyl Haf Merched y Wawr a gynhaliwyd ym Machynlleth y diwrnod cynt. Cyflwynwyd tystysgrif i Beti a chafodd pawb gyfle i edmygu y gwaith llaw cywrair a enillodd iddi y wobwr hon.

Roedd y noson yng ngofal pedair o'n haelodau. 'Tri pheth sy'n annwyl i mi' oedd themar noson ac wedi i Trish Huws eu cyflwyno cawsom glywed gan Diana Richards, Enid Gruffudd, Kathleen Richards a Megan Mai am yr hyn oedd yn annwyl iddyn nhw. Cafwyd amrywiaeth hyfryd yn yr hyn oedd wedi ei ddewis. Fe'n tywyswyd i wahanol leoedd yng Nghymru a thu hwnt - o Landeilo i Gwm Tafolog Mallwyd, i Llech Goronwy Maentwrog a Ceylon (Sri Lanka bellach). Cawsom gyfle i edmygu ambell i ddarn o emwaith a chlywed y storiâu ynghlwm â rheiny a darllenwyd cerdd gan Diana a ysgrifennwyd gan ei thad Leslie Richards. Daeth atgofion hapus o'u plentyndod yn ôl i amryw o'r aelodau pan ddangoswyd copi o'r stori Yr Hen Wraig Fach ar Mochyn. Diolchodd Eirian Evans i'r pedair am noson ddfyfr ac am rannu storiâu diddorol oedd ynghlwm â'r hyn oedd yn annwyl iddynt.

Cyn tynnu'r cyfarfod i ben dechreuwyd roi trefn ar raglen y gangen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Edrychwn ymlaen yn awr at y daith flynyddol ymhen rai wythnosau – a hynny i Gastell Aberteifi.

E.E.

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Ymddiheuriadau

Yn Rhifyn Mai o Bapur Pawb soniwyd mae trwy gyfraniadau lleol yn unig y prynwyd dau Diffibrilwyr i Langynfelyn. Rhoddwyd cyfraniad hael o hanner y gost sef £500 gan bwyllgor Gyrfa Chwist Clwb Bowlio Machynlleth. Mae'r Clwb Bowlio eisioes wedi cyfrannu at Ddiffibrilwyr yn Nhal-y-bont ac mewn nifer o gymunedau lleol eraill. Ymddiheuriadau cywir am y gwall hwn.

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

Cynhelir Barbeciw yn y
Cartref
Nos Wener 19 Mehefin
am 6.30 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

CLWB NOS WENER

Y Blac, Tal-y-bont
Nos Wener 26 Mehefin 8pm

BOIS Y GILFACH

Ar lafar ac ar gân

Grŵp Llifogydd Tal-y-bont yn ymweld â Chraig y Pistyll

Ar nos Iau 4 o Fehefin bu aelodau o Grŵp Llifogydd Tal-y-bont yn ymweld â chronfa ddŵr Craig y Pistyll yng nghwmni swyddogion Dŵr Cymru.

Er bod tair blynedd ers llifogydd mawr Mehefin 2012, mae'r Grŵp yn parhau i geisio deall beth yn union ddigwyddodd ar y noson honno pan orlifodd dŵr drwy 27 o dai yn y pentref, ac i bwysu ar yr awdurdodau i wneud gwaith a fyddai'n lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiad tebyg yn y dyfodol.

Craig y Pistyll yw'r brif gronfa sy'n cyflenwi dŵr yfed i Aberystwyth a rhan helaeth o ogledd Ceredigion. Gan fod y dŵr sy'n arllwys ohoni yn llifo i'r afon Leri, mae'r hyn sy'n digwydd yng Nghraig y Pistyll o ddi-ddordeb mawr i'r Llifogwyr.

Yn ogystal â chael esboniad am adeiladwaith yr argae a'r gweithdrefnau a ddilynir gan Dŵr Cymru er mwyn ei chynnal, cafwyd sicrwydd na chafodd dŵr ychwanegol ei ryddhau yn fwrriadol ar noson yn llifogydd.

Yn ôl Heulyn Davies, Pennaeth Cysylltiadau Allanol Dŵr Cymru a threfnydd yr ymweliad, mae cronfeydd yn gorlifo'n naturiol adeg llifogydd trwm gan eu bod wedi'u dylunio i wneud felly.

Esboniodd hefyd bod yna ofynion cyfreithiol (sydd yn cael eu rheoleiddio gan Gyfoeth Naturiol Cymru) sy'n golygu bod rhaid i Dŵr Cymru sicrhau bod digon o ddŵr yn cael ei ryddhau i gynnal lefelau penodol o ddyfnder o ran dŵr yn yr afon, a bod Deddf Cronfeydd Dŵr yn golygu bod rhaid iddynt gynnal profion i brofi fod pob dim yn iawn gyda'r cronfeydd fel eu bod yn gallu gweithredu adeg argyfyngau.

Osgoi llifogydd yn y dyfodol

Ar ddydd Iau 18 Mehefin bydd Grŵp Llifogydd Tal-y-bont yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion ac ymgynghorydd ar lifogydd er mwyn trafod y camau angenrheidiol ar gyfer osgoi llifogydd yn y dyfodol.

Yn wahanol i bentrefi megis Penrhyn-coch a Dolybont, a ddiodeffodd hefyd yn ystod llifogydd 2012, does dim wedi ei wneud i amddiffyn tai yn Nhal-y-bont rhag effeithiau llifogydd, ar wahân i osod amddiffynfeydd 'Flood Ark' ar ddrwsau tai unigol.

Bydd Nigel Jones o Nigel Brett Associates yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Grŵp Llifogydd yn ystod y prynhawn ac yna yn y Llew Gwyn am 7 yr hwyr. Os ydych am gyfrannu at y drafodaeth yn y cyfarfod gyda'r hwyr cysylltwch ag Arthur Dafis ar ArthurDafis@googlemail.com / 07841979452.

Ydy'ch yswiriant tŷ wedi codi ers y llifogydd?

Mae'r Grŵp Llifogydd yn cynnal arolwg o'r newidiadau mewn yswiriant tai yn Nhal-y-bont ers y llifogydd. Ymddengys bod llawer o bobl gafodd eu heffeithio, a rhai na ddiodeffodd yn sgil y llifogydd, wedi gweld cynnydd mawr ym mhreis eu hyswiriant tŷ. Os ydych am gyfrannu i'r arolwg cysylltwch ag Arthur Dafis ar ArthurDafis@googlemail.com / 07841979452.



Aelodau o Grŵp Llifogydd Tal-y-bont a swyddogion o Dŵr Cymru yn ystod yr ymweliad â Chraig y Pistyll. Hefyd yn y llun mae Mr Gwilym Jenkins a Mr Tegwyn Lewis Rhosgoch (ar y dde) a fu'n gymorth i gludo aelodau'r Grŵp i'r gronfa ar hyd ffordd caregog iawn yn eu cerbydau 4x4.

Llên Gwerin Meirion

Yn ei ragymadrodd i rif 87, 'llyfrau Llafar Gwlad', Gwasg Carreg Gwalch, £6.50, dyma air Gwyn Thomas: 'Os oes gennych chiw gopi o drafodion Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog (1898) y mae gennych drysor, a hynny'n bennaf oherwydd un cyfraniad ynddo, sef eiddo William Davies ar 'Llên Gwerin Meirion'. 'Dyma un o'r casgliadau gorau o'i fath a ddarllenais erioed', meddai beirniad y gystadleuath, yr Athro John Rhŷs, ond gan nodi, yn hollol gywir, nad ydi pob peth ynddo'n unigryw i Feirionnydd.

Y mae William Davies yn un a ddylai gael ei gydnabod am y gwaith arwrol a wnaeth ar llên gwerin, ac eto prin iawn ydi'r rhai sydd wedi clywed sôn amdano. Ganwyd William Davies o Dal-y-bont, Ceredigion ym 1851, a bu farw ym 1939. Cafodd ei addysgu yn ysgol y pentref a'r Coleg Normal am gyfnod ond gan iddo hiraethu am ei gartref dychwelodd i fod yn gigydd gyda'i frawd hynaf, David. Bu'n weithgar yn ei ardal, ac yn aelod ffyddlon yn Bethel, capel yr Annibynwyr, lle bu'n organydd am flynyddoedd. Diolch i Gwyn Thomas am olygu detholiad o waith godidog William Davies, 'Fel rhyw fath o deyrnged i ŵr sy'n wirioneddol haeddu ei gydnabod.' Rwy'n gobeithio ysgrifennu rhagor am y llên-werinwr o Benlôn, y tro nesaf.

Yn dilyn lluniau diddorol o Brifwyl 1898, cyflwynir 18 adran inni a dyma godi ambell ysgub o'r gyntaf, YMADRODDION LLÊN GWERIN - Boliad ci bery dridiau; Brechdan o ddyn; Celwydd noethlymun; Dweud ar draws ysgwydd; Dyn heb orffen crasu; Heb ddim blew ar ei dafod; Mae ganddo beth diwedd o gyfoeth; Mor denau â brân yn ei thalcan;

DIARHEBION Y MISOEDD - Gwell gweld doddi'th fam ar elor/Na gweld hinon teg yn Ionor; Os yn Chwefror tyf y pawr/Trwy'r flwyddyn wedyn ni thyf ef fawr; Nid yw Mawrth sych byth yn cardota ei fara; Gwlithyn yn Ebrill a wna i'r amaethwr ganu fel eos; Mai a gyfyd y galon; Gwenau Mehefin alltudiant bob drycin; Mis Gorffennaf, llawen buarth; Awst a lenwa y gegin, Medi y seler; Medi, llawen adar; Hydref teg wna aeaf gwyntog; Tachwedd dechrau'r galar; Rhagfyr, gocheler ei fâr.

ARWYDDION Y TYWYDD - Arwyddion Tylwyth Teg - Cymylau'n ymddangos â'u hochrau'n felynon; Chwilod duon yn hedfan y prynhawn. Arwyddion Gwynt a Thymestl - Cylchoedd duon oddeutu'r haul a'r lleuad; Y tân yn llosgi yn dywyll ac yn hisian. Arwyddion Glaw - Yr haul yn ymddangos yn goch danllyd wrth godi; Bwa'r Drindod yn edrych yn wyrdd.

HEN BENILLION

Hir yw'r ffordd a maith yw'r mynydd
O Gwm Mawddwy i Drawsfynydd;
Ond lle bo 'wyllys mab i fyned,
Fe wêl y rhiw yn oriwaered.

Os ei di garu, dos yn gynnar
Cyn i'r merched fwyta'u sspar,
Ti gei weled trwy y gwydyr
Pwy sy' lân a phwys sy' fudur.

Chwe pheth a sych yn chwipyn -
Carreg noeth a genau meddwyn'
Pwll yr haf a thap heb gwrw,
Gwddw gôf a dagrau gwiddw.

DIARHEBION - Barcud y wiw, a fynni di gyw?/Mynna ddau os ca' i nhw'n fyw; Shontyn, Shontyn, y gŵr tynn/Clywed y cwblw a dweud dim; Os tynti nyth y dryw, ni chei iechyd yn dy fyw/Os tynti nyth y robin, ti gei gorco yn dy goffin; DYCHYMYGION - Pa beth mae pawb yn ei wneud ar yr un adeg? - Mynd yn hen; Beth rêd ynghynt ar ôl torri ei phen? - Ffos; Beth sydd â'i ddeipen yn y dŵr a'i ganol yn sych? - Pont; Pa beth yw'r hyn y dylai pob dyn ei gadw, ac hefyd ei roi? - Ei air. ARWYDDION ANGAU - Clywed iâr yn canu fel ceiliog; Gweld kannwyll gorff, sef golau o liw glas-lin yn ymsymud tuag uchder ysgwydd gwâr.

LLÊN YR ADAR - Y Dryw - Ni ellid torri nyth yr aderyn bychan hwn yn ddiberygl, canys:

Y neb a dorro nyth y dryw,
Ni wêl fwyniant yn ei fyw;
Y neb a dorro nyth y wennol,
Ni wêl fwyniant yn dragwyddol.

LLYSENWAU LLEOEDD - Gwylliaid Cochion Mawddwy; Witshus Coedystumgwern; Pobl Wrol Corris; Lloeau Llandrillo; Llanfachreth yr Uwd Tew; Byddigions Llandderfel; Duwciaid y Bont (Rhydlydan); Brain Harlech; Ffylliaid y Bala; Gweryrod Llanuwchllyn; Cŵn Edeyrnion.

Teyrnged

Miss Jocelyn Henry

Triest yw cofnodi marwolaeth Miss Jocelyn Henry, gynt o 7 New Street, Tal-y-bont. Bu farw'n dawel ar 16 Mai ym mhlas Cwmcynfelyn yn 98 oed.



Dros y blynyddoedd tra'n byw 'n y pentref roedd Miss Henry yn adnabyddus i lawer ac wedi ennyn parch y gymdeithas.

Roedd yn aelod gweithgar o Sefydliad y Merched ac roedd ganddi ardd hyfryd a agorai i'r cyhoedd dan gynllun Gerddi Cenedlaethol, i godi arian i elusennau.

Bydd ei ffrindiau lu yn gweld ei cholli'n fawr.

Yn ystod mis Mai hefyd bu farw Mrs Hilary Hadfield, Tan y Berllan, Tal-y-bont. Roedd Hilary'n aelod o Sefydliad y Merched Tal-y-bont a'r grwp llyfrau.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w gwr David a'r teulu i gyd.

Juliet Trudgill



Clwb Gwawr Y Pennau

Ar yr 8fed o Fai 2015 yng Ngwesty Llety Ceiro cynhaliwyd noson o osod blodau yng nghwmni Mr. Donald Morgan o siop Flodau'r Bedol, Llanrhystud.

Yng nghanol yr hwyl o weld Donald yn gosod y blodau mewn ffridd deniadol, ysblennydd a thlws fe wnaeth sôn am ei hanes diddorol iawn. Fe wnaeth ddangos amrywiaeth o ddail a blodau hardd e.e. Y Rhosyn 'Aqua', Elaeagnus Pungens 'Maculata' a'r Helianthus (Blodyn yr Haul), i enwi rhai a bu angen cofio ar gyfer cwis am flodau a'u henwau. Braff cael sôn nod pawb wedi gwrando'n astud yn ôl eu sgoriau – yn enwedig Mair Nutting a gafwyd 14 allan o 15!!

I goroni'r cyfan, bu tair ohonom yn ddigon lwcus i ennill raffl. A'r gwobrau? Y gosodiadau ansbaradigaethus a wnaed gan Donald. Dysgom lawer o'r noson ddiddorol.

Lynwen Evans

Cymorth Cristnogol Plwyf Llangynfelyn

Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £117. Roedd y trefniadau yng ngofal Olwen Rowlands, Carys Briddon ac Owen Jenkins.

Cymorth Cristnogol Tal-y-Bont a'r Cylch

Casglwyd fel a ganlyn...

Pensarn a Chwm Ceulan (Gwilym Jenkins)	£107.25
Stryd y Capel (Falyri Jenkins)	£182.86
Maesyderi (Lyn Ebenezer a Sue Jones Hughes)	£ 69.56
Gwaelod y pentref (Lisa Tomos)	£139.69
Dan y Dderwen i'r Ffald; ochr dde (Bleddyn a Delyth Huws)	£49.22
Dôl Pistyll, Penlôn a'r Ffald (Eurllys Jones)	£108.70
Ardal Bontgoch (Geraint Evans)	£ 82.84
Ardal Cynnullmawr (David Nutting)	£124.84
Pentref Tal-y-bont (Menna Morgan)	£148.32
Parsel Henllys (Wendy Watkin a Janet Jones)	£133.04
Cyfanswm	£1,146.32

Ar ran y pwyllgor mae ein diolch i bawb am eich rhoddion eto eleni. Braff yw cael croesawu Eurllys Jones, Eurfan at y tîm o gasglwyr a diolch i chwi i gyd am eich gwaith diflino a rhoi o'ch amser i'r wythnos yma bob blwyddyn.

Gwilym Jenkins a Janet Jones



Unwaith eto daeth gwahoddiad

Unwaith eto daeth gwahoddiad i fynychu un o nosweithiau Ruth Jên yn yr Hen Siop Sgidie i weld ei gwaith celf mwyaf diweddar a rhan o'i harddangosfa ar gyfer cyflawni ei M.A.

Ers sbel mae llawer yn meddwl am ei gwaith fel printiadau o'r hen fenywod Cymreig ond yr oedd y gwaith oedd i'w weld yn y tŷ ar y noson (ac yn Oriol yr Ysgol Gelf) yn dangos ochr wahanol i Ruth. Mae hi wedi bod yn gweithio ar y thema Gwlan ar gyfer ei gwaith MA ac wedi edrych ar wlan yn ei hanfod ond hefyd ar gneifio defaid, nodau clust a'r traddodiadau cymdeithasol sy'n ynghlwm â dyddiau cneifio. Bu'n arbrofi gyda printio, crochenwaith, ffotograffiaeth, a ffilm. Yn ei harddangosfa gellid gweld sut y mae hi wedi mynd ati i gofnodi arferion cneifio a thrin defaid, yr ochr deuluol a chymdogol o hynny ac hefyd y gwrthrychau sydd yn rhan o'r holl fyd yna. Gwelwyd gwellaif o bob math a maint, ffotograffau o gneifio, cinio cneifio a nodau clust a sawl cnu hardd, heb son am ffilm arbennig.

Yr hyn sy'n gyffrous am y gwaith diweddar yw bod Ruth, nid yn unig wedi cofnodi, ond wedi mynd ati i ddathlu'r arferion ac i roi statws celfyddydol i elfennau o fywyd pob dydd ffermwyr defaid. Carfan o bobl sydd yn aml yn annweledig ac yn anealladwy i drigolion dinasoedd a threfi ond y mae dyrchafu gwaith a bywyd pobol felly yn ddwfn yn y gwaith y mae Ruth wedi ei gyflawni yma. Debyg mai dyna pam yr oedd hi mor bwysig iddi mai ffermwyr a chymdogion o'r pentre a thu hwnt oedd yno ar y noson i fwynhau. Ac yr oedd yna naws mwynhau a dathlu yn yr Hen Siop Sgidie y noson honno gyda phaned a darn o gacen gneifio. (Sef cacen hadau carawe – pwy feddylie !?)

CMSD



Rhagor am Ffeiriau Tal-y-bont

Mae canrif union er pan fu E O Jones (1873-1915) farw. Cyhoeddwyd y gyfrol *Un Ennyd Fer* yn 1982, ac fe'i seiliwyd ar gasgliad o gant ac ugain o sleidiau gwyrdd gweiddiol yn y Llyfrgell Genedlaethol, ynghyd â thua chant a hanner o brintiau a chardiau post a fenthycwyd gan nifer o bobl yr ardal, i gyd o waith Ted Jones. Dychwelwyd yr holl ffotograffau a fenthycwyd i'w perchnogion, ond carwn ddweud fod nifer o'r sleidiau a rhai o'r lluniau yn cynnwys dyddiadau penodol; y rhan fwyaf wedi eu nodi gan Ted Jones ei hun, a'r lleill wedi eu hychwanegu gan berchnogion y lluniau. Mae'r ffotograff o'r ffair stondinau ar sgwâr Tal-y-bont (tudalen 35 yn y gyfrol) yn cario'r dyddiad Gorffennaf 1908, gan mai hwnnw oedd y dyddiad a gefais gan Mrs Myfanwy Lennard, perchennog y llun. Sylwr fod nifer fawr o blant yn y llun arbennig hwnnw.

Cred Gwyn, fodd bynnag, mai ffair fawr flynyddol 17 Hydref oedd hi yn hytrach na ffair ganol haf, ac mai'r un ffair oedd hi a'r un yn y ffotograff yn rhifyn mis Mai o Bapur Pawb o eiddo Gareth Pritchard. Rhaid imi anghytuno â hyn am y rhesymau canlynol:- Roedd bri mawr ar ffeiriau Tal-y-bont ar droad y ganrif ddiwethaf hyd at y Rhyfel Byd Cyntaf yn arbennig pan ychwanegwyd y ffair bleser. Yn ôl sawl ffynhonnell ceir sôn bod rhwng ugain a deg ar hugain o stondinau o bob math yn llenwi pob gofod o amgylch y patsyn glas. Fel arfer byddai stonidwyr yn hawlio'r un safle o un ffair i'r llall. Ar ganol y patsyn glas ei hun y lleolid y ffrâm oedd yn dal y cychod siglo, a'r ceffylau bach, neu'r *merry-go-round*, ac ati. Dim ond un polyn tynnu oedd yn cael ei ddefnyddio i ddal y ffrâm gychod, a hwnnw wedi ei osod ar un talcen i'r ffrâm yn unig. Weithiau fe fyddai'r polyn tynnu'n wynebu'r Llew Du mewn un ffair, tra mewn ffair arall yn wynebu tuag at y Golden Key. A dyna yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau lun dan sylw. Yn y ffotograff yn *Un Ennyd Fer* mae'r polyn tynnu'n wynebu'r Llew Du, tra yn y llun yn Mhapur Pawb mae'n wynebu'r ffordd arall. Felly nid yr un ffair oedd hi.

Rheswm arall dros dderbyn mai ffair Gorffennaf 1908 oedd hi yw'r ffaith fod haint difrifol o glwy'r pennau (*mumps*) wedi lledaenu ymhlith plant yr ardal yn ystod misoedd Medi a Hydref y flwyddyn honno. Mor ofnadwy oedd yr haint fel y gorchymynnodd Dr James, y Swyddog Iechyd ar y pryd, bod yr ysgol yn cael ei chau. Bu ar gau o ddiwedd Medi tan ddiwedd Hydref, a hyd yn oed pan ailgorwyd hi roedd nifer o'r plant yn dal yn sâl. Ni allaf gredu y byddai'r holl blant a welir yn y llun yn mynychu'r ffair o ystyried difrifoldeb yr haint. Ac mewn rhifyn o'r *Welsh Gazette* ddwy flynedd yn ddiweddarach ar 21 Gorffennaf 1910, dan y pennawd "Ffair Stondinau Tal-y-bont", ceir cyfeiriad at ddamwain i w'r ifanc o'r enw John Owen Jones, Brynymôr, Tal-y-bont pan syrthiodd allan o un o'r cychod siglo a osodwyd i fyny gan un o ddynion y ffair. Fe'i cafwyd yn gorwedd ar y ddaear yn anymwybodol. Brynymôr oedd y tŷ a arferai sefyll ar safle gwaith mwy Penpompren (wrth ymyl yr hen rod ddŵr fawr), oedd yn gartref i reolwr y gwaith ar un cyfnod.

Ynglŷn â'r ffotograff arall o waelod y pentre o eiddo Gareth Pritchard. Ysbeidiol fu hanes y Ddarllenfa a'r Llyfrgell drwy gydol ei bodolaeth yn Nhal-y-bont. Sefydlwyd hi i ddechrau ar ddydd calan 1880, ond byrhoedlog fu ei hanes, hyd oni ailsefydlwyd hi ym Mai 1896. Cynigiodd John Pritchard (1832-1905) - oedd yn enedigol o Luestygrafe ar fynydd-dir Pumlumon, ac yn cadw siop lyfrau a deunyddiau sgwennu yn Stryd Newydd/ New Street, Tal-y-bont - ystafell ganolog yn ei gartref iddi. Yn Ngorffennaf 1900 symudwyd y Ddarllenfa i'r Hen Golden Key (Garreg Lwyd nawr). Ceir adroddiad yn y *Cambrian News* yn adrodd hanes cynnal Cyngerdd Gŵyl Ddewi ar 13 Mawrth 1903 i godi arian i'r Llyfrgell a'r Ddarllenfa yng nghwmni Watcyn Wyn (y bardd enwog), y cerddor medrus Eos Dor, a'r telynor galluog Tom Bryant. Yn ôl yr adroddiad roedd canu gyda'r delyn yn beth newydd yn Nhal-y-bont, a chafwyd gwledd i'w chofio. Mae'n siwr nad

oedd awdur yr adroddiad yn gwybod am Jeremeia Wood (Jeri Bach Gogerddan), y sipiwn yn canu'i delyn yn nghwmni baledwyr enwog y dydd yn y Llew Du ddeugain mlynedd ynghynt. Symudwyd y Ddarllenfa a'r Llyfrgell o un adeilad i'r llall yn y pentre wedyn, a'i chartref olaf oedd Paris House. Dymchwelwyd y rhan hwnnw o'r tŷ oedd yn ymwithio allan i'r ffordd fawr, yn ystod y 1960au, am fod y ffordd yn rhy gul a pheryglus.

Roedd John Pritchard, un o gymwynaswr mawr y Ddarllenfa yn w'r diwylliedig iawn, gyda diddordeb dwfn mewn gwleidyddiaeth a llenyddiaeth fel ei gilydd, gan ei fod yn fardd a llenor ei hun. Byddai galw mynych am ei wasanaeth adeg etholiadau oherwydd ei allu arbennig fel siaradr cyhoeddus. Ganwyd iddo ef a'i wraig Catherine bedwar o feibion a dwy ferch, i gyd yn dalentog iawn. Y mab hynaf oedd Edward Pritchard, ac ef oedd athro cyntaf ysgol Esgairhir (a gynhaliwyd rhwng 1883 a 1893). Apwyntwyd ef wedyn yn brifathro yn Birmingham, ond bu farw'n ddyd ifanc. Merch iddo oedd Mrs Myfanwy Bird (o gwmi enwog *Bird's Custard*), ac yn ôl y diweddar Ithel Jones, byddai hi'n ymweld â Thal-y-bont o bryd i'w gilydd mewn *Rolls Royce* mawr melyn. Yn 1964 cyflwynodd recordydd tãp a pheiriant chwarae recordiau i'r ysgol er cof am ei thad, a fu'n ddisgybl i Thomas Henry Kemp.

Mab arall oedd John James Pritchard (1870-1894), oedd â'i fryd ar y weinidogaeth. Bu'n hen draddodiad ymhlith myfyrwyr colegau Bangor i fynd i ben y Wyddfa yn ystod misoedd yr haf i weld y wawr yn torri. Tra yng ngholeg Bala-Bangor aeth ef a phymtheg o'i gyd-fyfrwyr un noson i ben y Wyddfa er mwyn gweld y wawr yn torri. Ond niwl a glaw gafodd y fintai, a hynny a niweidiodd iechyd John James (fel y galwai ei fam ef bob amser). Drannoeth sylwodd ei ffrindiau ar ei wyneb llwyd a'i lygaid o liw gwaed-goch annaturiol. Serch hynny, mentrodd i gyhoeddiad yn Llanelli y Sul canlynol, ond cwynai gan boen yn ei wddf. Dychwelodd i Dal-y-bont yn wael ac aeth i'w wely, a bu farw o fewn tridiau ar 6 Medi 1894 yn 24 oed. Rwy'n cofio mynd i gopâr Wyddfa ar yr un perwyl yn ystod haf 1969 gyda chriw o 'eneidiau hoff, cytûn' o'r Coleg Normal. Fe fuom ni yn fwy ffodus na John James Pritchard gan i ni gael tywydd delfrydol a phrofiad bythgofiadwy wrth wlyo'r wawr yn torri. Tynged debyg iawn i un John James fu tynged E O Jones hefyd, oherwydd pan aeth ef i angladd modryb i Nel ei wraig yn Llandrindod fe wlychodd at ei groen yn y glaw y diwrnod hwnnw, a throdd yr annwyl yn llid ar yr ysgyfaint, a chydiodd y niwmonia ynddo. Bu farw ddeng niwrnod yn ddiweddarach yn 41 oed ar 25 Ebrill 1915. Un o'r rhai a gludai ei arch ar ddiwrnod ei angladd oedd Taylor Lloyd (1880-1951), ei gyfaill mawr o fferylllydd o Aberystwyth a rannodd ei diddordeb mewn ffotograffiaeth. Bu Taylor Lloyd yn cadw fferyllfa yn Aberystwyth am hanner can mlynedd union.

Hanodd Taylor Lloyd o hen deulu o forwyr yn Aberystwyth. Boddwyd ei dadcu y Capten William Lloyd ynghyd â holl griw ei sgwerner y *'Margaret Lloyd'* pan suddwyd y llong ym Mae Ceredigion, noson y storm ofnadwy a suddodd y *'Royal Charter'* wrth ymyl Moelfre, Ynys Môn, 26 Hydref 1859. Ei dad oedd y Capten David John Lloyd (1852-1927), a dreuliodd ddeugain mlynedd ar y môr yn gapten ar longau hwyliu a stemars, cyn cael ei benodi'n Harbwr-feistr Aberystwyth am ugain mlynedd olaf ei fywyd. Wedi marwolaeth ei wraig gyntaf Jane (mam Taylor Lloyd), ymbriododd gydag Elisabeth Pritchard (1872-1934), yr hynaf o ddwy ferch John Pritchard, Tal-y-bont. Roedd Elisabeth yn wraig hynod weithgar a phoblogaidd yn Aberystwyth, a'i dylanwad yn fawr ar ei llysfab. Sefydlodd Taylor Lloyd fferyllfa yn Stryd y Bont, Aberystwyth yn 1901 cyn symud yn ddiweddarach i'r Stryd Fawr wrth ymyl siop Woolworth. Yn 1904 darparodd ystafell dywyll yn ei siop ar gyfer ei defnyddio gan ffotograffwyr amatur. Daeth ef a Ted Jones yn gyfeillion clôs iawn ac roedd gan Taylor Lloyd gysylltiad agos â Thal-y-bont a'r ardal oherwydd ei llysfab a'i theulu. Carwn awgrymu'n garedig mai ffotograff gan Taylor Lloyd yn hytrach na Tom Lloyd, Heol y Wig, Aberystwyth yw'r un o waelod y pentre o flaen Golden Key!

Hefin Llwyd

BWYD DA ...
CWMNI DA ...

yBlac
TALYBONT

BWYTY A BAR
CINO 12.00 - 2.30 SWPER NOS 6.00 - 9.00
CINO SUL 12.00 - 3.00

AM FWY O FANYLION, BWYDLENNI A CHYNGION
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk

Gwelw'n chi'n fuan... Cofion Siân, Catrin a'r tŷm

01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mai.

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Etholwyd y Cyngorydd David Evans yn Gadeirydd newydd y Cyngor, a Rhian Evans yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2015/16. Hefyd, fe enwebwyd Gerwyn Jones yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor y Cylch Meithrin, a Rhian Evans yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Ceredigion, Un Llais Cymru. Wrth ddod a'i gyfnod yn y Gadair i ben diolchodd Bleddyn Huws i'r aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd, David Evans.

Cyngor Sir Ceredigion – Cau ffordd dros dro: Maes y Felin, Tal-y-bont

Derbyniwyd hysbysiad y bydd ffordd Maes y Felin, Tal-y-bont, ar gau rhwng 8.30-14.00 ar Orffennaf 14, 2015, er mwyn gweithio ar y gwifrau pwer uwchben y ffordd.

Meddygfeydd

Adroddodd y Cyngorydd Enoc Jenkins fod nifer o bobl wedi achwyn iddo fod meddygfeydd doctoriaid Borth heb gael eu cynnal yn Nhal-y-bont ers tro. Gofynnodd a oedd modd i'r Cyngor ysgrifennu at y feddygfa i ofyn pryd y byddent yn ail-gychwyn. Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at y feddygfa ar ran y Cyngor.

Patsio Ffordd – A487

Nododd y Cyngorydd Enoc Jenkins ei fod wedi synnu gydag amseriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth drefnu gwaith ar y ffordd A487 yn Nhal-y-bont. Nododd fod gwaith wedi'i wneud i batio sgwariau mawr o'r ffordd yma yn ystod mis Ebrill, a'i bod wedi bod wrthi am bron i wythnos. Serch hyn, llai na mis wedyn, fe ddaeth gweithwr yn ôl i roi wyneb newydd dros y ffordd gyfan – gan godi'r gwaith a wnaed llai na mis yn gynharach. Teimlai'r Cyngorydd fod hyn yn wastraff arian llwyr, a gofynnodd a oedd modd i'r Cyngor ysgrifennu at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn iddynt esbonio beth oedd gwerth gwneud y gwaith patsio os oedd gwaith wedi'i drefnu i roi wyneb newydd ar y ffordd? Cytunwyd i'r Clerc ysgrifennu at Edwina Hart AC, ar ran y Cyngor.


Arwyddion 20/30mya

Gofynnodd y Cyngorydd David Evans a fyddai modd i'r Cyngor ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn pryd fydd arwyddion fflachio 20/30mya yn cael eu gosod ar fynediadau'r A487 o'r ffyrdd cefn. Nododd nad oedd hi'n amlwg beth oedd y terfyn cyflymder wrth ymuno â'r ffordd fawr. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553



**EGLWYS
ST. PEDR, ELERCH**

GWIN, CAWS A CHÂN
Parti Camddwr
Côr Tenovus Aberystwyth
artistiaid lleol

NOS WENER, 26
MEHEFIN, 2015
7.00 PM.

Llywydd
Mr Alun Davies,
MRCVS, San Clêr
(Llety Ifan Hen)
Mynediad: £7.00

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Mae materion iechyd unwaith eto wedi bod yn hawlio sylw yn yr wythnosau diwethaf. Daeth cam ymlaen wrth i'r bwrdd cydweithredol newydd sy'n cynllunio gwasanaethau yn y canolbarth gwrdd am y tro cyntaf. Edrychaf ymlaen at weld ei argymhellion ar agweddau hollbwysig fel gwasanaethau mamolaeth, gofal y galon a llawdriniaeth ym Mronglais, yn ogystal â recriwtio mwy o feddygon teulu. Cefais hefyd gyfle i gwrdd â nyrsys Marie Curie i drafod y fenter sydd ganddynt i ddarparu gofal diwedd-oes yn ne Ceredigion, ac i holi'r Gweinidog Iechyd ar y diffyg gwelyau ar gyfer iechyd meddwl.




O ran yr economi leol, da gweld y bydd y gostyngiad Trethi Busnes i fusnesau bach yng Nghymru yn cael ei ymestyn o £1000 i £1500 y flwyddyn nesa. Mae hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, ond mae polisïau Llywodraeth Cymru o ran caffael cyhoeddus yn dal i beri pryder i mi. Yn gynyddol, mae contractau i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau fel glanhau yn cael eu dyfarnu ar lefel genedlaethol, gan ffafrio cwmnïau mawr ar draul rhai bychain lleol. Byddaf yn parhau i ddadlau'r achos dros roi gymaint â phosib o gcontractau cyhoeddus i fusnesau cynhenid.

Un darn o newyddion fydd yn sicr derbyn croeso gan fusnesau yng ngogledd y sir yw'r ffaith fod yr ymgyrch 10-mlynedd dros wasanaeth trên gwell i Aberystwyth wedi dwyn ffrwyth. Nawr, mae trenau ychwanegol yn rhedeg o Aberystwyth am 6.30, 8.30, 12.30 ac 18.30. Daeth hyn o ganlyniad i fuddsoddiad o £13 miliwn ar uwchraddio'r cletrau yng nghyfnod Ieuan Wyn Jones fel Gweinidog Trafnidiaeth, ac ymgyrchu gan nifer o grwpiau ac unigolion dros gyfnod hir. Rwy'n hyderus y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, ac felly'n hwb i ymgyrchoedd eraill dros fuddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus – boed hynny'n drên neu fws – ar draws y gorllewin.

Cefais gyfle hefyd i holi'r Prif Weinidog ynglŷn â chanmlwyddiant geni T. Llew Jones. Mae cymaint yn mynd ymlaen i ddathlu cyfraniad yr awdur i Geredigion a llenyddiaeth Cymru – gan gynnwys drama gan Arad Goch a digwyddiadau yn eisteddfodau'r haf a Gŵyl Nôl a Mla'n – a byddai'n wych petai Llywodraeth Cymru'n medru hybu'r rhain.

Bistro
Gannets



Bywd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dyfchmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Garej Davmor 

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Ysgol Tal-y-Bont

Newid Staff

Wedi blynyddoedd o wasanaeth arbennig i Ysgol Tal-y-bont, daeth hi'n amser i ni ffurwio gyda Mrs Glenda Jenkins. Hoffwn i ddiolch yn fawr iddi am ei holl waith dros y blynyddoedd ac am ei chefnogaeth i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Dymuniadau gorau i chi yn eich swydd newydd yn siop AGA Machynlleth. Yn y cyfamsr, hoffwn groesawu Leah Griffiths atom sydd wedi dechrau fel Cynorthwy-ydd yn y Cyfnod Sylfaen. Croeso cynnes i chi Leah a gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn yr ysgol.

Ysgol Eco – Apêl Daeargryn Nepal

Wedi'r newyddion ofnadwy am y ddaeargryn yn Nepal, penderfynodd rai o blant hŷn yr ysgol ofyn am gymorth y Cyngor Ysgol i drefnu prynhawn o weithgareddau yn yr ysgol. Gweithiwyd yn galed iawn mewn cyfnod byr i drefnu stondinau amrywiol ar iard yr ysgol, er enghraifft, peintio wynebau ac ewinedd, dyfalu enw'r tedi, gwerthu wyau a stondin gacennau. Hoffwn i ddiolch o galon i bawb a fu'n cynorthwyo'r plant i gynnal y digwyddiad yma ac roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o'r gymuned wedi dod atom i gefnogi'r fenter. Trosglwyddwyd £375 i gronfa'r drychineb yn dilyn y digwyddiad. Gwych blant.

Ysgol Iach – Trawsgwlad

Ar ddydd Gwener y cyntaf o Fai, bu Megan Glover, Tomos Benjamin, Cai Thomas, Miriam Davies ac Elinor Davies yn cynrychioli ardal Aberystwyth yng nghystadluau trawsgwlad yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd ac yn enwedig i Eli ddaeth yn 7fed a Megan ddaeth yn 10fed yn y ras i ferched blwyddyn 5. Da iawn chi. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach roedd Eli'n cystadlu eto ym mhencampwriaethau cenedlaethol yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Da iawn ti Eli.

Rasys Beics AberCyclefest

Fel rhan o'r digwyddiad blynyddol, aeth criw o Ysgol Tal-y-bont i gystadlu yn y rasys i ysgolion – dim ond merched eleni! Da iawn chi Nia, Becca, Thérèse a Chloe am gystadlu mor arbennig yn erbyn cymaint o blant eraill o'r ardal a llongyfarchiadau arbennig i Thérèse Melad-Woodling am ddod yn drydydd a chyrraedd y llwyfan gwobrwyo.

Hoci

Llongyfarchiadau mawr i dîm hoci'r ysgol ar eu llwyddiant mewn pencampwriaeth hoci 4689 yn ystod y mis. Bydd y tîm ynghyd ag Ysgol Llanwnnen nawr yn cynrychioli Ceredigion mewn pencampwriaeth arall yng Nghaerfyrddin ym mis Mehefin. Diolch yn fawr iawn i rieni'r ysgol am gludo'r plant i Lamed, rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth yn fawr.

Criced

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn ymarfer yn galed ar gyfer pencampwriaethau criced yr ardal a phencampwriaeth griced 50/50 yr Urdd yn Llandysul. Pob hwyl i'r tîmau yn ystod mis Mehefin.

Mabolgampau a barbeciw'r Ysgol

Cofiwch y bydd mabolgampau'r ysgol yn cael eu cynnal ar ddydd Iau, Gorffennaf 9fed. Bydd y ras gyntaf yn dechrau am 1.30. I ddilyn bydd y barbeciw blynyddol a chyngerdd gadael Blwyddyn 6. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am bob cymorth. Croeso i bawb.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Nia Benham ar berfformiad arbennig o dda yn y gystadluau unawd chwythbrennau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili dros wyliau Sulgwyn. Dyma

benllanw misoedd o gystadlu a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r hyfforddi, rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad yn fawr iawn. Roedd hi'n hyfryd i weld ffotograff Glain wedi ei arddangos yn y babell gelf a chreffft hefyd. Da iawn chi ferched.

Cyfnod Sylfaen Ysgol Tal-y-bont

Ddiwedd Mai, daeth y deintydd atom i archwilio dannedd plant Blwyddyn 1. Roedd pawb yn chwerthin wrth orfod gwisgo sbectol haul o dan y lamp!

Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn ail-wampio'n hardal allanol yn ddiweddar ac wrth ein boddau'n creu mapiau yn y cwch môr-ladron, coginio gwleddoedd yn y gegin fwd a chloddio gyda'r jar codi baw yn y gornel adeiladu. Diolch i bawb sydd wedi gweithio'n galed i greu ardal mor braf.

Race for Life

Llongyfarchiadau mawr i rieni, staff a phlant yr ysgol am redeg yn y ras arbennig yma yn Aberystwyth yn ystod mis Mai. Da iawn chi i gyd.

Prosiect Cymerau

Mae Blwyddyn 3 a 4 yn ffodus iawn i gael bod yn rhan o'r prosiect Cymerau sy'n digwydd yn ardal Tal-y-bont a Borth. Mae'n rhan o brosiect ehangach tair blynedd o'r enw Hydrocitizenship (2014-2017) sy'n cyfuno ymchwil academiaidd, cyfranogiad cymunedol a gweithgareddau creadigol ar y syniad o ddinasyddiaeth mewn perthynas â dŵr.

Rydym ni fel dosbarth yn cydweithio gyda'r artist ac addysgwraig Judy Macklin i greu celfwaith yn seiliedig ar ddŵr gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr Afon Ceulan. Mae Judy wedi ymweld â ni ddwywaith yn barod. Ar y diwrnod cyntaf, buon ni'n astudio'r map ac yn lleoli ein cartrefi arno. Dysgon ni am y gylched ddŵr a thrafod pwysigrwydd dŵr i bobl, planhigion, anifeiliaid a'r holl fyd. Aethon ni am dro ar hyd y llwybr cyhoeddus a thros y bont dros Afon Ceulan. Defnyddion ni bensiliau trwchus graffit i ddarlunio'r synau yr oedden ni'n eu clywed yn ogystal â'r afon a'r tirlun hardd gan gynnwys y môr o ben y bryn.

Yn ystod yr ail ddiwrnod, cawsom gwmmi gŵr Judy sef yr Athro Mark Macklin o Brifysgol Aberystwyth ac un o ymchwilwyr y prosiect, Sara Penrhyn Jones, sydd yn cadw cofnod fideo a ffotograffau o'r gwaith. Y tro yma cawsom fynd am dro yn nes at yr afon ac rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Dafydd Jenkins am symud y teirw a rhoi caniatâd i ni gerdded drwy un o'i gaeau. Roedd yn rhaid i ni ddychmygu sut le oedd Tal-y-bont 6,000 o flynyddoedd yn ôl! Doedd hyn ddim yn dasg hawdd. Eglurodd yr Athro Macklin i ni sut oedd yr afon wedi symud dros gyfnod o amser ac wrth edrych yn ofalus ar siâp y tir yn y cae roedden ni'n gallu gweld ôl yr afon flaenorol. Defnyddion ni bastelau olew lliw i ddarlunio'r cae a'r afon.

Mae Judy am ddod yn ôl atom ddwywaith eto cyn ddiwedd y prosiect ac rydym yn edrych ymlaen i gael cwmmi'r bardd Eurig Salsbury yn ystod yr ymweliad olaf er mwyn i ni gael ychwanegu barddoniaeth at ein gwaith celf.

Diwrnod Twm Siôn Cati

Roedd dydd Sul yr 17eg o Fai wedi ei glustnodi fel Diwrnod Twm Siôn Cati ac aeth criw o Ysgol Tal-y-bont draw i Siop Cynfelyn i gwrdd â'r dyn ei hun. Cafwyd hanes Twm ac ambell stori amdano yn ystod y prynhawn ac roedd hi'n hyfryd i weld y plant yn ymateb i heriau Twm.

Trydar

Cofiwch, gallwch ddilyn helyntion yr ysgol ar Twitter @YsgolTalybont. Croeso i chi ymuno gyda ni.

Ysgol Tal-y-Bont



Cyfnod Sylfaen Ysgol Tal-y-bont



Ysgol Iach – Trawsgwlad



Prosiect Cymerau



Rasys Beics AberCyclefest



Nepal



Diwrnod Twm Siôn Cati



Eisteddfod yr Urdd



Ras feic



Tîm criced



Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion - Arbrawf Wŷn Hyrddod 2014-15

Un o weithgareddau'r Gymdeithas bob blwyddyn yw'r Arbrawf Wŷn Hyrddod lle mae aelodau'r Gymdeithas yn cael cyfle i anfon rhai o'i wŷn hyrddod i ffwrdd dros y gaeaf. Eleni daeth 15 o ffermydd i gymryd rhan yn yr arbrawf, gyda 41 o wŷn. Cafodd yr wŷn eu gaeafu i ffwrdd yn ardal Pen Llyn a'u pwyso'n rheolaidd. Ar ddiwedd yr arbrawf, roedd Hybu Cig Cymru yn mesur dyfnder y cig a'r braster er mwyn rhoi Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBV) i'r wŷn. Eleni, yn ennill Tarian Hybu Cig Cymru am yr indecs gorau oedd oen hwrdd Huw Davies, Llety Ifan Hen gyda indecs o 171. Yn ail oedd oen Alwyn a Gaynor Jones, Pensarn gyda indecs o 147.

Bu'r aelodau hefyd yn barnu ac yn dewis yr oen hwrdd gorau. Eleni daeth oen hwrdd Bryn a Rheinallt Jones, Hirnant, Ponterwyd i'r brig, ac yn ennill Cwpan Rumenco. Yn ail, daeth oen hwrdd David Nutting, Tŷhen Henllys.


Awdur 'Cardi Noir' Cymraeg yn Cyhoeddi Pedwaredd Nofel

Lansiwyd nofel newydd gan Geraint Evans, Tal-y-bont, awdur y nofelau 'Cardi Noir' Cymraeg cyntaf, ym mar Wiff Waff, Aberystwyth ar nos Wener, 5 Mehefin. *Y Gelyn Cudd* yw ei bedwaredd nofel dditectif yn dilyn cyhoeddi *Y Llwybr*, *Llafnau* a *Diawl y Wasg*. Fel yn *Y Gwyll*, mae ardal Aberystwyth wedi cael sylw blaenllaw yn nofelau Geraint.

"Mae diddordeb oesol gan bobl mewn nofelau ditectif a rhaglenni teledu fel *Y Gwyll*," meddai Geraint. "...ac os edrychwch ar yr ystadegau benthyciadau o lyfrgelloedd cyhoeddus a ffigyrau gwerthiant, dyma'r *genre* sydd ar y brig. Ond prin iawn yw'r awduron Cymraeg.

"Er bod cyfradd troseddau isel iawn yn Aberystwyth, dw i'n synnu dim bod *Y Gwyll* yn cael ei ffilmio yn yr ardal, gan ei bod yn llwyfan perffaith i'r straeon. Er fy mod i'n symud Ditectif Gareth Prior a'i dim o Heddlu Dyfed-Powys i Gaerdydd yn fy nofel newydd, mae rhan ohoni wedi'i lleoli yn Aberaeron. Mae daearyddiaeth yr ardal yn gweddu'n berffaith i'r stori – mae brynau a mynyddoedd ar y naill ochr, a'r môr gwyllt ar y llall."

Yn *Y Gelyn Cudd* mae cyn-wleidydd a miliwnydd yn hwylio o harbwr Aberaeron ar fore braf o wanwyn. Y bore canlynol, darganfyddir y cwch yn wag ym Mae Aberteifi. Ar gychwyn yr ymchwiliad gelwir Gareth Prior a'i dim i gyfarfod gydag Uned Gwrthderfysgaeth Heddlu Llundain ac fe arweinir y darllenwyr i fyd tywyll yr heddlu cudd. Dyma gyfle perffaith i ddarllenwyr Papur Pawb fentro i fydoedd anghyfarwydd!



S4C

cariad@iaith

8.00

14-20 Mehefin

Bwyta, cysgu, dysgu
Cymraeg – her i wyth
wyneb cyfarwydd yng
nghwmni Wynne Evans
a Nia Parry

@s4cariad
facebook/s4cariad

Y diweddaraf o Siop Cynfelyn

Gyda llawenydd mawr derbyniwyd y newyddion gan y Loteri Fawr eu bod nhw wedi cynnig grant o £497,000 i Gwmni Cymunedol Cletwr o dan y cynllun 'Pobl a Lleoedd'. Mae hyn yn golygu y gall y fenter gymunedol fynd ati i brynu safle gwasanaethau Cletwr yn Nhref Ddôl. Mae Cyngor Ceredigion eisoes wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer adeilad newydd ar y safle, ond mae'n rhaid i'r cwmni godi o leiaf £200,000 ychwanegol i dalu am weddill costau'r cynllun. Er hynny, mae'r Loteri wedi rhoi'r caniatâd i brynu'r safle ar unwaith, ac mae hyn bellach ar y gweill. Mae'r prosiect yn mynd o nerth i nerth gyda'r nifer o gwsmeriaid i'r siop ar caffi (yn bobl leol a theithwyr) yn codi bob mis. Bu wythnos hanner tymor yr un orau eto i'r busnes.

Yn sgil grant arall o £10,000 gan Fanc Santander, mae Lowri Jones a Gwilym Morus yn gweithio'n rhan amser yn trefnu ystod eang o ddiwyddiadau yn y Caffi: yn arddangosfeydd celf (mae gwaith Pete Condron i'w gweld tan ddiwedd mis Gorffennaf) ac yn ddiwyddiadau i ddysgwyr. Dewch i weld y ffilm *Hedd Wyn* ar 25 Mehefin am 7.30 o'r gloch. Sefydlwyd Llyfrgell Gymraeg ac i'r plant cynhelir Amser Stori ar 11 Mehefin am 2.30 o'r gloch a dosbarthiadau nos. I ddechrau ar Mehefin 24 am 7.30 o'r gloch cynhelir *Pedair Cainc y Mabinogi*, cwrs 4 wythnos gyda Dr Gwilym Morus-Baird. Bydd llawer mwy o bethau yn digwydd dros yr haf hefyd. Dewch i mewn i'r siop am fanylion pellach.

Ni fyddai hyn oll wedi bod yn bosibl heb waith anhygoel y staff a thîm mawr o wirfoddolwyr. Teimla'r gwirfoddolwyr fod hyn yn waith gwerthfawr, fel dywedodd un ohonyn nhw: "Rwy'n gwirfoddoli er mwyn y cwmni ar cyfeillgarwch. Hefyd i gwrdd â phobl newydd, dysgu sgiliau newydd a dal fyny gyda phethau." ac un arall yn nodi: "Mae'n brofiad gwerthfawr gweithio ar y til ac yn y caffi. Mae'n dda dod i nabod pobl a gallu siarad yn ddwyieithog". Cofiwch fod y siop ar caffi yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr o hyd! Os ydych chi'n gallu rhoi ychydig o'ch amser a'ch bod yn awyddus i fod yn rhan o dîm ffantastig, cysylltwch â'r siop.

Nigel Callaghan

Y Gair Olaf



Pan da chi'n edrych allan trwy'r ffenest beth ydych chi'n gallu'i weld? Awyr? Coed? Caeau?

Beth yw eich barn chi ar y pethau da chi'n eu gweld?

'Adnoddau naturiol' yw'r term newydd am yr elfennau o'n hamgylchedd: y gwrychoedd, coed a chaeau, y figyn ar afonydd. Ond beth ydych chi'n feddwl sy'n bwysig? Wyddoch chi bod rhai 'adnoddau naturiol' yn werthfawr iawn oherwydd eu bod yn help i gymdeithas e.e. mawndiroedd gwlyb yn cloi carbon, coed yn puro'r aer, yn gynefin ac yn gysgod.

Pwy 'sa'n meddwl y byddai golygfeydd hardd ein hardal ni nid yn unig yn wych ar gyfer twristiaeth (gwerth £143m y flwyddyn yn ardal y Ddyfi) ond hefyd yn darparu gwasanaethau fel puro dŵr, lleihau llifogydd, cloi carbon ayyb?

Bydd cyfle dros y misoedd nesaf i chi fynegi barn ar adnoddau naturiol y fro wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru ddechrau gofalu am ein hamgylchedd, efo eraill, mewn ffordd newydd.

Ond beth am y gair 'adnodd' yma? Mae'n fy mhoeni i. Gair oer, gair busnes yw adnodd lle mae'r frawddeg nesaf am egluro sut i'w ddefnyddio i'r eithaf. Hefyd wrth rannu ein hamgylchedd mewn i adnoddau mae perygl mawr o anghofio bod popeth ynghlwm yn ei gilydd ac mae effeithio ar un adnodd yn effeithio'r cyfan: rhaid edrych ar a gofalu am bopeth efo'i gilydd fel un, boed yn afon, môr, traethau, coed neu gors. Cofiwch 'The whole is greater than the sum of its parts'.

'Da chi'n edrych ar llawer iawn mwy na jest golygfa hardd o'r ffenest, mae'n ffynnon bywyd!

Lisa Thomas

Biosffer Dyfi Biosphere
gwerth y byd - world class by nature

GWAHODDIAD

Ymunwch â ni i lansio Map Dŵr Cymerau: blwyddyn o archwilio dŵr yn Y Borth a Thal-y-bont (Medi 2015 - Awst 2016).

Borth, 20 Mehefin

Lleoliad: ar draeth y Borth ac yn Nhafarn y Victoria gerllaw.

Beth i'w ddisgwyl: 'Cryt' (Urchin) rhyfedd ar y môr, Côr y Gors, gweithgareddau i'r teulu ar y traeth, sgrinio ffilmiau, a lluniau. Mae'r gweithgareddau awyr agored yn amodol ar y tywydd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i cymerau.org neu ffoniwch ecodefy:
01654 703965



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

Garej Paul Joseph

01970 822220

**Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrsio MOT**



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones



Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON



Tal-y-bont: Pencampwyr Adran Gyntaf Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth ar Cylch


Pencampwyr

Fel y rhagwelwyd yn rhifyn diwethaf Papur Pawb, coronwyd Clwb Pêl-droed Tal-y-bont yn bencampwyr Adran Gyntaf Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth ar Cylch wedi buddugoliaeth dda yn erbyn Penrhyn-coch ar nos Wener ddiflas ganol Mai. Efallai fod y tywydd yn ddiflas ond roedd y dathlu yn fythgofiadwy wrth i'r clwb gipio'r bencampwriaeth am y tro cyntaf erioed.

Enillodd y clwb bencampwriaeth yr ail adran yn 1948-49, ond prin yw'r rhai sy'n cofio hynny ac arwy'r newydd sy'n gwisgo'r crysau du a melyn traddodiadol erbyn hyn. Rhaid llongyfarch y chwaraewyr ar ddau reolwr Anthony Southgate a Marc Richards ar eu camp.

Roedd y cefnogwyr niferus a ddaeth i wylïo'r gêm yn erbyn Penrhyn-coch yn llawn tensiwn, yn arbennig yn yr hanner awr gyntaf pan oedd y tîm cartref yn pwysu. Yn ffodus roedd Jamie Barron yn gadarn yn y gôl a Dylan Hughes a Jac Williams yn ddi-ildio yng nghanol yr amddiffyn. Ychydig cyn yr egwyl aeth

Tal-y-bont ar y blaen gyda pherl o gôl gan Jamie Evans. Crëwyd y cyfle iddo gan Jamie Surgey ac roedd ei ergyd nerthol o ugain llath yng nghefn y rhwyd fel fflach. Setlwyd nerfau'r cefnogwyr ymhellach yn gynnar yn yr ail hanner gyda Jamie Evans eto'n rhwydo. Mater o amddiffyn yn drefnus oedd y dasg o hynny allan a phrin oedd cyfleoedd Penrhyn-coch i sgorio. Llwyddodd Callum Pritchard i sgorio yn hwyr yn y gêm i sicrhau'r pwyntiau...ar bencampwriaeth...a mawr fu'r dathlu wedi i'r tîm dderbyn eu tlysau ar darian.



Jamie Evans sgoriodd ddwy gôl hollbwysig

Gŵyl Pêl-droed Talybont

Maes Chwarae, Cae'r Odyn Galch, Talybont a'r Cylch

Dewis Lwcus £1 yr un Gwobrau | £100 | £50 | £25
Bydd bwyd ar gael ar y maes

20/6/15

21/6/15

Dan 7 | Dan 9 | Dan 11 | Dan 12 | Dan 14 | Dan 16 **Dechrau 10am**

Oedolion **£2**

